**Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017**

Diwygiadau arfaethedig i'r gofynion ar gyfer ffurf a chynnwys adroddiadau blynyddol

Byddai'r diwygiadau yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol(2) gael ei nodi o dan y penawdau a ganlyn—

Pennod 1: Crynodeb y Cyfarwyddwr

Pennod 2: Cyd-destun

Pennod 3: Asesu perfformiad

Pennod 4: Gwybodaeth arall

2. Byddai'r wybodaeth i'w chynnwys ym Mhennod 3 (Asesu perfformiad) yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol adrodd yn erbyn wyth o safonau ansawdd, wedi eu grwpio o dan y penawdau a ganlyn:—

Pennod 3(a): Pobl

Pennod 3(b): Atal

Pennod 3(c): Partneriaeth ac Integreiddio

Pennod 3(d): Llesiant

3. O dan y diwygiadau arfaethedig, byddai'n ofynnol i'r wybodaeth a gynhwysir o fewn pob maes ym Mhennod 3 ateb y cwestiynau canlynol:—

Adran (i): Beth yr ydym yn ei wybod am ansawdd ac effaith yr hyn a wnawn?

Adran (ii): Sut yr ydym yn gwybod?

Adran (iii): Beth yr ydym yn ei wneud yn dda a sut y gallwn wneud yn well?

Adran (iv): Pa gynnydd a wnaethom o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd? Pa wahaniaeth a wnaethom?

4. Byddai angen i'r wybodaeth a gynhwysir ym Mhennod 4 gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddo:

Pennod 4(a): Arolygiadau ac adolygiadau

Pennod 4(b): Cwynion a sylwadau

Pennod 4(c): Cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth eraill